

Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020: Sir Benfro

Adroddiad Asesu Blynyddol 2018/19

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan Sir Benfro i Isadran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru.

1 Crynodeb gweithredol

Gwnaeth Sir Benfro fodloni 11 o'r 12 hawl graidd yn llawn, a bodloni un ohonynt yn rhannol.

O'r 10 dangosydd ansawdd sy'n cynnwys targedau, cyflawnodd Sir Benfro 8 ohonynt yn llawn, 1 ohonynt yn rhannol, a methodd â chyflawni 1 ohonynt.

Mae gwasanaeth llyfrgell Sir Benfro yn parhau i gyflawni'n dda ar gyfer ei gymunedau lleol, gyda boddhad cwsmeriaid yn uchel yn gyson, a'r oriau agor yn cynyddu unwaith eto yn ail flwyddyn y chweched fframwaith. Gellir gweld effaith ailagor y Llyfrgell Sirol yn Hwlfordd yn y perfformiadau gwell mewn nifer o feysydd gan gynnwys nifer cyffredinol yr ymwelwyr a'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau / gweithgareddau, er bod y defnydd cymharol yn parhau i fod o dan y lefel ganolog. Bu cwblhau'r cyfleuster hwn, a'r partneriaethau a ddatblygwyd â Llyfrgell Genedlaethol Cymru a'r Parc Cenedlaethol, yn gyflawniad sylweddol ar ran yr awdurdod, gan gyflawni buddion trawiadol ar gyfer y gymuned leol. Mae'r lefelau buddsoddi wedi cael eu cynnal i raddau helaeth, ac mae Cyngor Sir Penfro yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer y dyfodol, wrth gynnal a datblygu ei wasanaethau llyfrgell.

- Mae'r arolygon blynyddol o ddefnyddwyr yn dangos lefelau cyson uchel o foddhad gyda'r gwasanaeth, ac effaith gadarnhaol darpariaeth y gwasanaeth llyfrgell ar fywydau pobl.
- Mae'r niferoedd sy'n mynychu sesiynau hyfforddiant ffurfiol wedi cynyddu yn 2018/19, ond nid i'r hen lefelau, gyda'r perfformiad o ran hyn yn dal ymhlith yr isaf yng Nghymru.
- Mae'r niferoedd sy'n mynychu digwyddiadau a gweithgareddau wedi cynyddu, ac mae ffocws penodol ar ymestyn y rhaglen i ddefnyddwyr â gofynion arbennig wedi sicrhau bod y ddarpariaeth honno bellach ar gael ym mhob prif fan gwasanaeth ac, o ganlyniad, mae DA 6 wedi cael ei gyflawni.
- Mae nifer yr ymweliadau ffisegol wedi cynyddu'n sylweddol yn 2018/19, ond erys y perfformiad cymharol yn isel. Nodir perfformiad gwell hefyd yn y rhan fwyaf o feysydd eraill sy'n ymwneud â'r defnydd a wneir o lyfrgelloedd, ond mae'r defnydd yn dal yn is na'r lefel ganolrifol ar y cyfan.
- Mae'r gwasanaeth wedi parhau i wella ei fuddsoddiad mewn deunyddiau ond mae'n dal i fethu â chyflawni'r targedau ar gyfer DA 9; mae'r perfformiad o ran gwariant ar ddeunyddiau Cymraeg wedi parhau ar yr un lefel, gyda'r gofynion o ran hyn (DA 10) yn cael eu cyflawni.
- Mae'r lefelau staffio wedi cynyddu ychydig yn 2018/19, ond nid yw'r targedau yn cael eu cyflawni, ac mae'r awdurdod yn parhau i gael budd o gyfraniad ei wirfoddolwyr; cefnogir tair llyfrgell gymunedol, y mae pob un ohonynt wedi'u cynnwys yn y datganiad.

2 Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd â thargedau, dangosyddion ansawdd â meincnodau a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi'r llwyddiannau yn erbyn y meysydd hyn. Darperir adroddiad naratif o berfformiad yr awdurdod yn Adran 3.

2.1 Hawliau craidd

Mae Sir Benfro yn parhau i gyflawni 11 o'r 12 hawl graidd yn llawn, ac yn cyflawni HG6 yn rhannol, lle mae'r polisi o godi ffi weinyddol am gadw llyfrau, er mwyn talu costau trosglwyddo teitlau i'r llyfrgell a ddewiswyd gan y darllenydd, yn mynd yn groes i egwyddor mynediad am ddim. Nodir nad oes gan Sir Benfro, yn debyg i nifer bach o awdurdodau eraill, fynediad at gynllun Benthycia rhwng Llyfrgelloedd rhanbarthol a fyddai fel arall yn lleihau costau yn y maes hwn. Mae'r gwasanaeth yn parhau i gyflawni yn erbyn yr hawliau eraill, gan barhau â'i raglen waith i adnewyddu ac uwchraddio safleoedd llyfrgelloedd ac ymestyn yr oriau agor ymhellach. Mae gweithio mewn partneriaeth â Llyfrgell Genedlaethol Cymru, y Parc Cenedlaethol a phartneriaid eraill yn nodwedd arbennig ar waith Llyfrgell Sirol flaenllaw newydd Sir Benfro yn Hwlfordd.

2.2 Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) yn y fframwaith, a deg ohonynt yn cynnwys targedau. O'r rhain, mae Sir Benfro yn cyflawni 8 yn llawn, 1 yn rhannol ac yn methu â chyflawni 1 o'r dangosyddion.

Dangosydd Ansawdd	Cyflawni?	
DA 3 – Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol		Cyflawni'n llawn
a) Cymorth TGCh	✓	
b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth	✓	
c) Cymorth e-lywodraeth	✓	
d) Datblygu darllenwyr	✓	
DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles		Cyflawni'n llawn
i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau	✓	
ii) Cynllun Llyfrau Llesol	✓	
iii) Casgliad penodol i iechyd a lles	✓	
iv) Gwybodaeth am ymddygiadau a ffyrdd o fyw	✓	
v) Arwyddbyst at wasanaethau iechyd a lles	✓	
DA 6 – Pob man gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig	✓	Cyflawni'n llawn
DA 7 – Lleoliad mannau gwasanaeth	✓	Cyflawni'n llawn
DA 9 – Deunydd darllen cyfoes a phriodol		Heb ei gyflawni
Derbyniadau y pen o'r boblogaeth	x	
neu Variant ar ddeunyddiau y pen o'r boblogaeth	x	
DA 10 – Adnoddau Cymraeg		Cyflawni'n llawn
% y gyllideb deunyddiau wedi'i gwario ar y Gymraeg	✓	
neu Variant ar y Gymraeg y pen o'r boblogaeth	x	

DA 11 – Mynediad ar-lein:		Cyflawni'n llawn
a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhynggrwyd	✓	
ii) Darpariaeth Wi-Fi	✓	
DA 12 – Cyflenwi ceisiadau		Cyflawni'n llawn
a) % y ceisiadau wedi'i chyflenwi o fewn 7 diwrnod	✓	
DA 3 – Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol	✓	
DA 13 – Lefelau staffio a chymwysterau:		Cyflawni'n rhannol
i) Staff y pen o'r boblogaeth	x	
ii) Staff cymwysedig y pen o'r boblogaeth	x	
iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth	✓	
iv) Canran DPP	✓	
DA 16 – Oriau agor y pen o'r boblogaeth	✓	Cyflawni'n llawn

Mae gwasanaeth Sir Benfro wedi gwella ei berfformiad yn yr ail flwyddyn hon o'r chweched fframwaith, ac mae bellach yn cyflawni DA 6 yn llawn.

2.3 Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sy'n ceisio asesu'r effaith y mae defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell yn ei chael ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, a dim ond unwaith yn ystod cyfnod tair blynedd y fframwaith y mae gofyn i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer Dangosyddion Ansawdd 1. Mae'r ffigurau crynhoi isod (isaf, canolrif ac uchaf) felly yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny sy'n nodi eu bod wedi cwblhau eu harolygon defnyddwyr yn ystod 2017/18 neu 2018/19. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, ac 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr uchaf.

Mae Sir Benfro yn cynnal arolygon i oedolion a phlant unwaith y flwyddyn; felly, caiff y ffigurau eu diweddarau bob blwyddyn.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 – Gwneud gwahaniaeth					
b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau:	95%	=5/13	60%	94%	97%
e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:	95%	=1/15	38%	88%	95%
DA 5 b) % mynychwyr sesiynau hyfforddi a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu hamcanion:	99%	=4/20	80%	97%	100%

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno hyd at bedair astudiaeth achos yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Cyflwynodd Sir Benfro ddwy astudiaeth achos o'r fath:

- Gwau a Chlonc – mae adborth gan aelodau'r grŵp yn Llyfrgell Doc Penfro yn dangos yn glir werth y sesiynau hyn i'r rhai sy'n cymryd rhan: yn datblygu sgiliau newydd ac yn ymdrin â phroblemau dysgu; yn lleihau iselder ac unigedd drwy gyfeillgarwch a gweithgarwch; a buddiannau amgylchedd cefnogol a diogel.

- Glan-yr-afon – effaith datblygiad newydd Llyfrgell Glan-yr-afon yn Hwlfordd, sy'n cyfuno'r llyfrgell â siop goffi, oriel (gan weithio gyda Llyfrgell Genedlaethol Cymru) ac arlwy i ymwelwyr (ochr yn ochr â'r Parc Cenedlaethol). Mae adborth gan gwsmeriaid wedi bod yn hynod gadarnhaol, gan gyfeirio ato fel lle anhygoel i astudio a dysgu sgiliau newydd, ac fel cyfleuster gwych i'r gymuned leol.

2.4 Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn fodd i wasanaethau fonitro a meincnodi eu perfformiad dros amser, a chymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Sir Benfro ar gyfer 2018/19. Mae safle'r awdurdod wedi'i roi allan o 22, sef 1 yw'r uchaf a 22 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Mae dangosyddion lle mae llai na 22 awdurdod wedi cyflenwi data ar eu cyfer yn ddangosyddion lle nad oedd yr elfennau data perthnasol ar gael i rai awdurdodau. Mae ffigurau o flwyddyn gyntaf y chweched fframwaith neu arolygon blaenorol perthnasol hefyd wedi'u cynnwys at ddibenion cymharu. Caiff dangosyddion 'y pen o'r boblogaeth' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf	2017/18
DA 1 – Gwneud gwahaniaeth						
a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd	88%	4/15	24%	82%	96%	90%
c) iechyd a lles	94%	1/15	33%	62%	94%	95%
d) lle diogel a chroesawgar	98%	6/15	90%	97%	100%	99%
DA 2 – Boddhad cwsmeriaid						
a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau	89%	12/14	81%	91%	98%	88%
b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da'	99%	=3/14	93%	99%	100%	99%
c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da'	91%	=4/13	65%	91%	95%	91%
d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol	97%	=7/14	93%	97%	99%	97%
e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau	9.1	=9/13	8.5	9.3	9.5	8.9
DA 5 – Hyfforddiant i ddefnyddwyr						
a) mynychwyr y pen o'r boblogaeth	14	21/22	13	30	208	12
c) hyfforddiant anffurfiol y pen o'r boblogaeth	135	16/22	15	199	433	167
DA 6 – Mynychwyr mewn digwyddiadau y pen o'r boblogaeth	105	21/22	91	295	689	82
DA 8 – Defnyddio'r llyfrgell ¹						
a) ymweliadau y pen o'r boblogaeth	3,096	18/22	2,596	3,969	7,170*	2,597
b) rhith-ymweliadau y pen o'r boblogaeth	1,059	9/22	345	885	2,205	1,052
c) benthycwyr gweithredol y pen o'r boblogaeth	142	13/22	58	150	251	126
DA 10 – Benthyciadau Cymraeg y pen o'r boblogaeth ²	321	21/22	95	602	1,424	275
DA 11 – Mynediad ar-lein						
b) cyfrifiaduron y pen o'r boblogaeth ³	12	3/22	5	10	14	12
c) % yr amser sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd	22%	=14/22	14%	25%	63%	24%
DA 13 – Lefelau staffio a chymwysterau						
(v) a) cyfanswm gwirfoddolwyr	70	4/21	3	30	214	75
b) cyfanswm oriau gwirfoddolwyr	3,521	3/21	90	1,477	9,806	3,024

DA 14 – Gwariant gweithredol						
a) cyfanswm gwariant y pen o'r boblogaeth	£11,378	14/22	£7,181	£12,145	£19,449	£11,034
b) % ar staff	49%	19/22	47%	62%	78%	49%
% ar adnoddau gwybodaeth	13%	9/22	8%	13%	21%	13%
% ar offer ac adeiladau	4%	11/22	0.4%	4%	25%	4%
% ar gostau gweithredol eraill	33%	3/22	0.3%	16%	37%	34%
c) gwariant cyfalaf y pen o'r boblogaeth	£8,829	1/22	£0	£467	£8,829	£17,432
DA 15 – Cost net am bob ymweliad	£1.84	11/22	£1.18	£1.82	£2.52	£2.00
DA 16 – Oriau agor ⁴						
(iii) a) % oriau cau mannau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny	0.00%	=1/22	0.00%	0.00%	0.25%	0.00%
b) % arosfannau'r llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd	0.00%	=1/20	0.00%	0.28%	7.99%	0.36%

¹ rhoddir seren wrth ymyl ffigurau ar gyfer gwasanaethau sydd wedi'u cyd-leoli; mae perfformiad y gwasanaethau hyn yn debygol o adlewyrchu'r ffaith bod mwy o bobl yn ymweld â nhw, ac felly ni ellir eu cymharu'n uniongyrchol â darpariaeth llyfrgell ar wahân

² fesul 1,000 o'r boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg; ffigurau o adroddiadau 2017/18 wedi'u cywiro yn dilyn gwall cyfrifo

³ fesul 10,000 o'r boblogaeth breswyl ⁴ Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).

3 Dadansoddi perfformiad

Mae'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd wedi'u rhannu yn bedwar maes allweddol. Mae'r adran hon yn yr adroddiad yn amlinellu perfformiad yn y meysydd hyn, ac yn cymharu'r perfformiad hwn â blwyddyn gyntaf y chweched fframwaith (2017/18).

3.1 Ateb anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)

Adnewyddodd gwasanaeth Sir Benfro ei ddau arolwg o ddefnyddwyr ym mis Mawrth 2019, fel rhan o'i ymgynghoriad blynyddol â defnyddwyr. Mae'r canlyniadau yn dangos lefelau cyson uchel o foddhad gyda'r gwasanaeth, ac effaith gadarnhaol y llyfrgell ar fywydau pobl, a chaiff canlyniadau'r arolygon eu dadansoddi'n fanwl er mwyn nodi tueddiadau a meysydd i'w gwella. Mae pob un o'r llyfrgelloedd sefydlog (rhai'r awdurdod a rhai cymunedol) yn parhau i ddarparu'r ystod ofynnol o gymorth ar gyfer datblygiad unigol yn unol â chynlluniau gweithredu safleoedd llyfrgelloedd, a chefnogir iechyd a lles yn effeithiol hefyd. Mae'r niferoedd sy'n mynychu sesiynau hyfforddiant ffurfiol wedi cynyddu yn 2018/19, ond nid i'r hen lefelau, gyda'r perfformiad o ran hyn yn dal ymhlith yr isaf yng Nghymru. Mae'r niferoedd a gafodd eu helpu drwy hyfforddiant anffurfiol wedi lleihau ers 2017/18 ac maent yn dal islaw'r lefel ganolrifol.

3.2 Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae gwasanaeth Sir Benfro yn parhau i gyflawni'r targed ar gyfer mynediad hawdd at fannau gwasanaeth, gyda 12 llyfrgell gangen (y mae tair ohonynt wedi'u hwyluso gan y gymuned) yn gwasanaethu ei boblogaeth wasgaredig. Mae'r niferoedd sy'n mynychu digwyddiadau a gweithgareddau a drefnir gan y llyfrgell wedi cynyddu, gan adlewyrchu effaith yr adnoddau ychwanegol yn y llyfrgell newydd yn Hwlfordd, ond erys y perfformiad cymharol o ran hyn ymhlith yr isaf yng Nghymru. Mae ffocws penodol ar ymestyn y ddarpariaeth i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig wedi sicrhau bod digwyddiadau / gweithgareddau bellach yn cael eu darparu ym mhob un o'r 11 o lyfrgelloedd cangen sydd ar agor am 10 awr neu fwy yr wythnos, ac o ganlyniad mae DA 6 wedi cael ei gyflawni. Mae nifer yr ymweliadau ffisegol wedi cynyddu'n sylweddol yn 2018/19, sydd, unwaith eto, yn adlewyrchu llwyddiant y cyfleusterau llyfrgell newydd yn Hwlfordd, ond erys y

perfformiad cymharol yn isel. Nodir perfformiad gwell hefyd yn y rhan fwyaf o feysydd eraill sy'n ymwneud â'r defnydd a wneir o lyfrgelloedd, ond mae nifer y llyfrau i oedolion a fenthycir wedi lleihau ac mae defnydd cyffredinol yn dal yn is na'r lefel ganolrifol.

3.3 Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)ⁱ

Mae'r gwasanaeth wedi parhau i wella ei fuddsoddiad mewn deunyddiau yn sgil agor y Llyfrgell Sirol newydd yn Hwlfordd, ond mae'n dal i fethu â chyflawni'r targed gwariant ar gyfer DA 9. Mae gweithgarwch caffael wedi canolbwyntio ar lyfrau i oedolion yn 2018/19 (ar ôl i niferoedd mawr o lyfrau i blant gael eu prynu yn y flwyddyn flaenorol). Mae'r gwasanaeth yn parhau i fodloni'r gofynion o ran gwariant cymesur ar ddeunyddiau Cymraeg, ac yn nodi cynnydd boddhaus yn nifer yr adnoddau Cymraeg a fenthycir, ond unwaith eto erys y perfformiad o ran hyn yn gymharol isel. Mae'r ddarpariaeth o gyfrifiaduron personol wedi cynyddu ers 2017/18 ac erys ymhlith yr uchaf yng Nghymru, ond mae lefelau defnydd wedi gostwng ychydig, yn unol â'r profiad mewn mannau eraill. Mae Sir Benfro yn parhau i fodloni'r gofynion o ran cyflenwi ceisiadau.

3.4 Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)

Mae lefelau staffio cyffredinol wedi cynyddu yn 2018/19, gyda'r oriau agor hwy yn y Llyfrgell Sirol newydd, ac mae lefelau staffio proffesiynol wedi parhau'r un fath fwy neu lai. Er nad yw'r naill darged staffio na'r llall wedi cael eu cyflawni, erys arweinyddiaeth gymwysedig yn ei lle, ac mae'r gwasanaeth yn parhau i fodloni'r gofynion o ran cyfran amser y staff a dreulir ar ddatblygiad proffesiynol. Mae Sir Benfro yn cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd i wirfoddoli, gyda thua 70 o unigolion yn cyfrannu 50 awr ar gyfartaledd yr un i'r gwasanaeth, ac erys hwn yn un o'r cyfraniadau uchaf yng Nghymru. Mae'r ffigurau yn cynnwys oriau gwirfoddolwyr yn y tri gwasanaeth a reolir neu a gefnogir gan y gymuned.

Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi cynyddu ychydig ers 2017/18, sy'n adlewyrchu costau staff uwch ar y cyfan. Mae Sir Benfro yn parhau i gyflawni'r targed ar gyfer cyfanswm yr oriau agor gyda staff y pen o'r boblogaeth, gan gynnig ychydig mwy o oriau o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ac mae'r perfformiad dipyn yn uwch na'r lefel ganolrifol. Mae'r ffigurau o ran hyn ac ar gyfer staffio yn cynnwys oriau a briodolir i'r gwasanaeth astudiaethau lleol, sydd wedi'i leoli yn Archif y Sir.

4 Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad, gofynnir i'r awdurdodau roi gwybod sut mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Mae Sir Benfro yn parhau i gyflawni o dan ei Strategaeth Llyfrgelloedd ar gyfer 2015-2020, gyda chysylltiadau â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a blaenoriaethau ehangach y cyngor wedi'u nodi. Nodir cyfraniadau o dan dri maes â blaenoriaeth: *Creu cymunedau cryfach ac iachach*, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau iechyd a lles, drwy Hybiau Bywyd y gwasanaeth, digwyddiadau cymunedol a'r gwasanaeth llyfrgell deithiol / dosbarthu i'r cartref. *Lleihau tlodi*, sy'n cefnogi gwirfoddoli, ac yn dylanwadu ar ddatblygiad y blynyddoedd cynnar; a *Sicrhau rhagoriaeth yn effeithlon*, sy'n parhau i weithredu ei brosiect hybiau cymunedol a'r prosiect Llyfrgell Sirol blaenllaw. Mae cyfraniadau penodol at feysydd a flaenoriaethwyd gan Lywodraeth Cymru dros y 12 mis diwethaf hefyd wedi'u nodi.

5 Cyfeiriad i'r dyfodol

Yn ei adroddiad ar gyfeiriad yr awdurdod yn y dyfodol a'i gynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn ganlynol, mae Sir Benfro yn tynnu sylw at y gwaith i barhau i ddatblygu ei bartneriaeth â Llyfrgell Genedlaethol Cymru i ddarparu gwasanaethau yn y Llyfrgell Sirol a'r Oriel newydd yn Hwlfordd, a chwblhau prosiect Hwb cymuned Neyland. Mae'r gwasanaeth hefyd yn gweithio gyda chymunedau yn Saundersfoot, Arberth a Phenfro ar gynlluniau i gynnal a gwella'r gwasanaeth llyfrgell a ddarperir yn lleol. Mae cynlluniau eraill yn cynnwys darparu llyfrgell beilot 24/7 gan ddefnyddio technoleg newydd i wella mynediad i gwsmeriaid.

6 Casgliad

Mae gwasanaeth llyfrgell Sir Benfro yn parhau i gyflawni'n dda ar gyfer ei gymunedau lleol, gyda boddhad cwsmeriaid yn uchel yn gyson, a'r oriau agor yn cynyddu unwaith eto yn ail flwyddyn y chweched fframwaith. Gellir gweld effaith ailagor y Llyfrgell Sirol yn Hwlfordd yn y perfformiadau gwell mewn nifer o feysydd gan gynnwys nifer cyffredinol yr ymwelwyr a'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau / gweithgareddau, er bod y defnydd cymharol yn parhau i fod o dan y lefel ganolog. Bu cwblhau'r cyfleuster hwn, a'r partneriaethau a ddatblygwyd â Llyfrgell Genedlaethol Cymru a'r Parc Cenedlaethol, yn gyflawniad sylweddol ar ran yr awdurdod, gan gyflawni buddion trawiadol ar gyfer y gymuned leol. Mae'r lefelau buddsoddi wedi cael eu cynnal i raddau helaeth, ac mae Cyngor Sir Penfro yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer y dyfodol, wrth gynnal a datblygu ei wasanaethau llyfrgell.

ⁱMae e-adnoddau a brynwyd drwy danysgrifiadau a ariennir yn ganolog wedi cael eu heithrio o'r ffigurau caffael ar gyfer DA 9 yn 2018/19 er mwyn sicrhau bod y safon yn adlewyrchu strategaeth, buddsoddiad a pherfformiad unigol yr awdurdod yn gywir. Mewn rhai achosion, mae hyn wedi effeithio ar gyflawniad yn erbyn y safon o gymharu â 2017/18. Mae Ffurflenni Ystadegau CIPFA yn parhau i gynnwys ffigurau ar gyfer adnoddau a gynhyrchir yn ganolog.